Dadansoddiad o Holiadur- Tymor y Gwanwyn 2017

Mae'r graff atodol yn dangos dadansoddiad o ymatebion rhieni i'r holiadur mwyaf diweddar (Ionawr 2017). Derbyniwyd 52% o ymatebion.

Pleser oedd derbyn ymatebion hynod o gefnogol a phositif gan fwyafrif o rieni disgyblion Ysgol y Dderwen. Fe welwch fod canran uchel yn fodlon ac yn hapus iawn gyda'r ysgol. Mae mwyafrif o rieni yn cytuno'n gryf bod eu plant yn gwneud cynnydd da a chanran uchel naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno ar bob agwedd. Diolchwn i chi am eich parodrwydd i ymateb a chynnig syniadau ac awgrymiadau ar sut y gallwn ddatblygu ymhellach gweithdrefnau'r ysgol.

Roedd mwyafrif ohonoch yn teimo'n gyffyrddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblemau a nododd rhan fwyaf bod eich plentyn yn hoffi'r ysgol hon.
Braf oedd clywed bod y rhan fwyaf o rieni yn teimlo bod ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau a bod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac yn annibynnol.

Nododd ychydig o rieni ansicrwydd am drefniadau cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion dysgu unigol. Yn fras, pe bai angen cymorth ychwanegol ar eich plentyn byddwn yn cysylltu â chi er mwyn trafod yr anghenion er mwyn i ni gytuno ar y ffordd ymlaen. Ymflachîwn yn ein polisi drws agored er mwyn i chi gysylltu â ni, petai unrhyw bryderon gyda chi.
Nododd ychydig iawn o rieni ansicrwydd am drefniadau cwynion. Yn fras, pe bai cwyn gennych, anogir chi i gysylltu â'r athro dosbarth yn gyntaf. Os dymunwch, gallwch hefyd gysylltu â'r pennaeth neu'r penaethiaid cynorthwyol. Mae copi o'r polisi cwynion ar wefan yr ysgol.

Yn ogystal â chanfod barn rhieni, mae'r ysgol wedi cynnal holiadur gyda'r disgyblion. Mae'r disgyblion i gyd yn teimlo bod athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae 100% yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae rhan fwyaf yn datgan bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio.
Mae 95% yn teimlo eu bod nhw'n gwneud yn dda yn yr ysgol ac yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os yn gweld gwaith yn anodd.

Mae'r canlyniadau yma'n galonogol iawn ac yn cadarnhau'r ddarpariaeth arbennig a'r cyswllt rhagorol rhwng y cartref a'r ysgol. Cofiwch am bolisi drws agored yr ysgol. Os oes unrhyw bryderon gennych am addysg eich plentyn, yna cysylltwch â ni'n syth.

Diolch unwaith eto,

Dylan Evans

Analysis of Parents' Questionnaire- Spring 2017

The attached graph shows the analysis of the parental responses following the most recent questionnaire (January 2017). 52% of replies were received.

It was a wonderful to receive very positive and supportive responses from the majority of parents of pupils of Ysgol y Dderwen. You will notice that a high percentage of parents are very satisfied and happy with the school.
The majority of parents strongly agree that their children are making good progress and a high percentage of parents either strongly agree or agree on every aspect within the survey. Thank you very much for your willingness to respond with ideas and suggestions. W will use the evaluations to further develop the school's procedures.

The majority of you feel comfortable in approaching the school with questions, suggestions or concerns and you feel that your child enjoys being at school. It was pleasing to read that parents felt that there is a good range of activities including trips and visits and that the school helps your child to become more mature and independent.

A small percentage of parents noted uncertainty regarding additional support in relation to any particular needs. In brief, if your child requires any additional support we will contact you in order to discuss your child's requirements in order for us to agree on the way forward. We pride in our open door approach in order for you to contact us if you have any concerns. A minority of parents noted their uncertainty regarding the school's complaints procedure. In brief, if you have a complaint, contact the class teacher in the first instance. You can also contact the headteacher or assistant headteachers if you wish to do so. A copy of the school's complaints policy can be found on the school's website.

In addition to collecting the views of parents, the school has undertaken a questionnaire with pupils. All pupils feel that teachers and support staff help them with their learning in order to make progress. 100% of pupils feel safe in school and nearly all state that the school deals well with any issues of bullying. 95% of pupils feel that they are doing well at school and understand what to do and whom to speak to if they find work difficult.

These results are very reassuring and confirm the excellent provision and outstanding links between the home and school.
Remember that the school has an open-door policy. If you have any concerns regarding your child's education at any time, please contact us immediately.

Thanks once again,

Dylan Evans